# Caban Y Faenol CYF

## Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol

Nod Caban Y Faenol Cyf yw darparu amgylchedd sy'n hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae deall sut i ymddwyn yn briodol yn rhan bwysig o faes dysgu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol o fewn y Cyfnod Sylfaen.

Mae Caban Y Faenol yn anelu at ddarparu awyrgylch hapus a gofalgar sy'n cynnig ystod o weithgareddau sy'n hwyl ac yn addas i oedran a datblygiad y plant.

Bydd y Rheolwr yn adolygu'r Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol yn rheolaidd ac os oes angen newidiadau.

Perchir pob plentyn ac anogir y plant i barchu plant eraill, oedolion, yr offer a'r adeilad.

**Hawliau'r Plentyn**

Mae sicrhau bod canllawiau clir a chyson i helpu pob plentyn i ddatblygu eu dealltwriaeth o ymddygiad derbyniol yn agwedd hanfodol ar barchu Hawliau'r Plentyn fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol:

| | |
|---|---|
| Erthygl 19 | Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, a'u hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych arnynt i gyd. |
| Erthygl 23 | Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol. |
| Erthygl 29 | Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn i'r eithaf. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill. |
| Erthygl 31 | Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau |

**Cod Ymarfer**

Bydd y staff yn:

- cefnogi a gofal i blant a'u teuluoedd yn unol â'u gofynion unigol.
- sicrhau bod gweithgareddau ac adnoddau digonol sy'n cwrdd ag anghenion pob plentyn.
- canmol ac adnabod ymddygiad da bob tro e.e. diolch i blant, eu canmol am rannu; am fod yn garedig; am helpu eraill; am chwarae gyda'n gilydd ac ati.
- modelu gan ddefnyddio strategaethau iaith ac ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad arferion ymddygiad cadarnhaol plant.

- gwybod bod plant weithiau’n ceisio sylw trwy ddangos ymddygiad negyddol (e.e. brathu, strancio, ymddygiad aflonyddgar tuag at eraill). Bydd y staff yn cynllunio i atal hyn rhag digwydd trwy ymyrraeth gynnar.
- hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn modd sy'n briodol i oedran a lefel datblygiad y plentyn unigol. Bydd staff y Gymdeithas yn sicrhau cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir o ddydd i ddydd, ac o berson i berson
- sicrhau bod rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid a phlant yn deall rheolau a pholisi ymddygiad cadarnhaol y lleoliad.
- cymryd camau cadarnhaol i wella ymddygiad annerbyniol gyda chefnogaeth y rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid.

**Ymddygiad a chanlyniadau annerbyniol**

Ni fydd Caban Y Faenol Cyf yn goddef y mathau canlynol o ymddygiad gan unrhyw aelod o’r lleoliad:

- taro
- poeri
- pinsio
- gwthio
- galw enwau
- sylwadau hiliol
- gweiddi
- rhegi
- dinistrio eiddo.

Gyda chefnogaeth rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid, bydd Caban Y Faenol yn cymryd camau cadarnhaol i wella ymddygiad y plentyn.

Gall y dulliau a ddefnyddir gan y staff gynnwys:

- symud y plentyn i atal niwed i eraill;
- seibiant priodol;
- tynnu sylw plentyn;
- trafod ymddygiad annerbyniol.

Ni fydd oedolion yn defnyddio unrhyw ddull o gaethiwo nac atal plentyn yn gorfforol oni bai ei fod yn angenrheidiol i atal niwed i blentyn neu oedolyn arall, neu i atal difrod i eiddo.

Bydd unrhyw ddigwyddiad o'r fath yn cael ei gofnodi yn y llyfr digwyddiadau a'i adrodd i'r rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid ar ddiwedd y sesiwn.

Caiff y plant eu canmol a'u hannog er mwyn hybu diwylliant o ymddygiad cadarnhaol. Os bydd plentyn yn ymddwyn yn ymosodol neu'n fygythiol, bydd y staff yn ei arwain i ffwrdd o'r sefyllfa, yn ei dawelu, ac yn egluro mewn modd sy'n ddealladwy iddo/iddi nad yw'r math hwn o ymddygiad yn dderbyniol. Bydd y digwyddiadau yn cael eu cofnodi yn y Llyfr Digwyddiad a'u trafod gyda rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid y plentyn.

Bydd Caban Y Faenol Cyf yn sicrhau nad yw plant yn cael eu disgyblu'n gorfforol mewn unrhyw fodd, ar unrhyw adeg e.e. trwy smacio neu ysgwyd, atal bwyd a diod.

Bydd Caban Y Faenol Cyf yn sicrhau nad yw plant yn cael eu disgyblu fel grŵp am ymddygiad annerbyniol.

Bydd Caban Y Faenol Cyf yn sicrhau nad yw plant yn cael eu disgyblu yn emosiynol mewn unrhyw fodd, ar unrhyw adeg e.e. trwy weiddi arnyn nhw neu eu hynysu.

Yn unol â chanllawiau Deddf Plant 2004, mae Caban Y Faenol Cyf yn credu ei bod yn dderbyniol cymryd camau corfforol hanfodol mewn argyfwng, e.e. codi plentyn a'i symud o'r sefyllfa. Cedwir cofnod o unrhyw ddigwyddiad o'r fath yn y Llyfr Digwyddiadau.

**Cyfrifoldeb**

Rhaid i'r Rheolwr sicrhau bod pawb yn deall y Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol ac yn gallu ei weithredu.

Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n gweithio yn y lleoliad i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu o ddydd i ddydd.